

## Gwybodaeth gefndir

Rydym yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg tuag at reoli gweithgareddau allai effeithio ar yr amgylchedd. Ble fo gweithgaredd yn debyg o beri risg i'r amgylchedd, yna bydd angen trwydded amgylcheddol ar gyfer y gweithgaredd hwnnw. Ar gyfer gweithgareddau risg isel, byddwn yn caniatáu cofrestru eithriadau heb eu trwyddedu, ond gydag amodau. Rydym yn gwneud hyn yn unol â Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010. Bydd rhaid ichi ein hysbysu am eithriad cofrestredig trwy gwblhau a chyflwyno eich ffurflen gofrestru. Gellir gwneud hyn trwy ein [porthol ar y we](#)

Ceir dau prif fath o systemau gwresogi ac oeri o'r ddaear (y cyfeirir atynt fel "systemau GSHC"):

**Systemau dolen gaeëdig.** Mae'r systemau hyn wedi eu creu o system bibau gaeëdig a gleddir yn y ddaear ac nid ydynt yn tynnu nac yn gollwng dŵr i'r dŵr daear. Ni fyddwch angen cofrestriad, trwydded na thrwydded tynnu dŵr ar gyfer system GSHC dolen gaeëdig.

**Systemau dolen agored.** Mae systemau dolen agored yn tynnu dŵr daear o dwll turio ac yn ei bwmpio trwy gyfnewidydd gwres cyn ei ollwng yn ôl i'r ddaear trwy dwll turio arall. Os yw'r system yn gweithredu o fewn cyfyngiadau tymheredd a gollwng dŵr rhagnodedig (a amlinellir yn Nhablau 1 a 2), yna gellir ei gofrestru fel gweithgaredd risg isel, sydd wedi ei eithrio rhag bod angen Trwydded Amgylcheddol.

### Nodyn pwysig:

1. Bydd y cofrestriad ond yn cwmpasu elfen gollwng dŵr y system GSHC dolen agored.
2. Mae angen cofrestriad ar gyfer pob pwynt gollwng dŵr, felly os yw'r system GSHC dolen agored yn cynnwys nifer o bwyntiau gollwng dŵr, yna bydd angen cofrestriadau unigol ar eu cyfer

Gydag unrhyw system GSHC dolen agored, bydd angen ichi hefyd ymgeisio am [drwydded tynnu dŵr](#) os bydd cyfaint y dŵr daear a dynnir yn fwy na 20 metr ciwbig y dydd (20,000 o litrau)

### Ffioedd

Ni chodir tâl cofrestru ar gyfer elfen gollwng dŵr y system GSHC, ac ni chodir unrhyw dâl parhau blynyddol. Codir ffioedd ymgeisio a thâl blynyddol am elfen trwydded tynnu dŵr y system GSHC.

### Sut i gysylltu â ni

Os hoffech gymorth i gwblhau'r ffurflen yma, neu arweiniad ar eithriadau, cewch hyd i wybodaeth ar ein gwefan neu cysylltwch â ni trwy ddefnyddio'r opsiynau isod.

Ymholiadau cyffredinol: 0300 065 3000 (Dydd Llun i Ddydd Gwener, 8am tan 6pm), neu trwy ebost ar [enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk).

## Am eich system GSHC

### Amodau cyfraddau gollwng

Er mwyn cofrestru eithriad, bydd rhaid ichi gadarnhau y byddwch yn cydymffurfio ag un o'r amodau a restrir yn Nhabl 1 a'r holl amodau yn Nhabl 2. Os nad ydych yn gallu cydymffurfio â'r rhain, yna bydd angen ichi addasu eich cynllun neu ymgeisio am drwydded. Mae'n bwysig ichi llynu at yr amodau hyn trwy gydol oes y system GSHC ac felly, rydym yn argymhell y dylech gadw cofnodion llif a thymheredd yn ystod gweithrediad y system. Bydd hyn yn eich helpu i sicrhau bod y system yn gweithio'n effeithiol ac i gadarnhau eich bod yn cydymffurfio â'r amodau.

**Tabl 1. Esboniad o amodau gollwng dŵr**

008	System ddŵr-oeredig gyda chyfaint o lai na 1500 o fetrau ciwbig y dydd	Mae system ddŵr-oeredig yn system a ddefnyddir ar gyfer gwresogi yn ogystal ag oeri a ble fo cymhareb tymheredd y dŵr sy'n cael ei ollwng â thymheredd y dŵr sy'n cael ei dynnu'n lai na 0.8, dros gyfnod o 5
-----	--	---

		mlynedd.
009	System gytbwys gyda chyfaint o lai na 430 o fetrau ciwbig y dydd	Mae system gytbwys yn system a ddefnyddir ar gyfer gwresogi yn ogystal ag oeri a ble fo cymhareb tymheredd y dŵr sy'n cael ei ollwng â thymheredd y dŵr sy'n cael ei dynnu o fewn amrediad 0.8 i 1.2, dros gyfnod o 5 mlynedd.
010	System ddŵr-cynnes gyda chyfaint o lai na 215 o fetrau ciwbig y dydd	Mae system ddŵr-cynnes yn system a ddefnyddir ar gyfer gwresogi yn ogystal ag oeri a ble fo cymhareb tymheredd y dŵr sy'n cael ei ollwng â thymheredd y dŵr sy'n cael ei dynnu yn uwch na 1.2, dros gyfnod o 5 mlynedd.

Caiff y cymarebau a nodir yn Nhabl 1 eu cyfrifo fel a ganlyn

$$\text{Cymhareb} = \frac{\text{Tymheredd y dŵr sy'n cael ei ollwng}}{\text{Tymheredd y dŵr sy'n cael ei dynnu}}$$

Sylwer: Ar gyfer ceisiadau newydd, dylai eich cofrestriad fod yn seiliedig ar gyfyngiadau cynllunio eich system a dylai monitro parhaus o'r llif a'r tymheredd a ddefnyddir i reoli'r system fod o fewn cyfyngiadau'r amodau a nodir yn Nhabl 1.

### Enghraifft o gyfrifiad: System gytbwys

Tymheredd cyfartalog y dŵr a ollyngir = 13.5 gradd canradd  
Tymheredd cyfartalog y dŵr a dynnir = 15.0 gradd canradd

- Cymhareb y tymheredd yw  $13.5 / 15.0 = 0.9$
- Mae hyn o fewn y gymhareb 0.8 i 1.2 a byddem yn ei ystyried yn system gytbwys.
- Mae rhaid i'r cyfaint o ddŵr a ddefnyddir mewn system GSHC risg isel fod yn llai na 430 o fetrau ciwbig y dydd.

**Tabl 2. Amodau ar gyfer cofrestru systemau GSHC**

Amod		Manylion pellach
1	Ni ddylid defnyddio'r dŵr sydd yn y system at unrhyw ddiben arall	
2	Ni ychwanegir unrhyw beth at y dŵr sydd yn y system	Os ychwanegir unrhyw beth at y dŵr yn y system, er enghraifft unrhyw ychwanegion y gellid eu defnyddio ar gyfer tynnu cen, yna ni fydd y gweithgaredd yn parhau i gael ei eithrio.
3	Ni fydd tymheredd y dŵr a ollyngir o'r system yn uwch na 25C ac ni fydd yn amrywio mwy na 10C, o'i gymharu â'r dŵr a dynnir	Rydym yn argymhell y dylech gofnodi llif a thymheredd yn rheolaidd yn ystod gweithrediad y system er mwyn eich helpu i fonitro hyn.
4	Nid yw'r system ar safle halogedig hysbys neu ar safle ble bu defnydd halogedig yn y gorffennol	Os yw'r safle ble mae'r tyllau turio wedi eu lleoli â defnydd hanesyddol allai fod wedi halogi'r tir. Gallai hyn gynnwys hen safleoedd diwydiannol, glofeydd ayyb. Cysylltwch â ni neu â'r Awdurdod Lleol am fanylion pellach.
5	Ni chaiff dŵr o'r system ei ollwng o fewn 50 metr i gwrs dŵr	Mae cwrs dŵr yn cynnwys pob afon, nant, ffos, draen, cyt, morglawdd, llifddor a llwybr y mae dŵr yn llifo trwyddo.
6	Ni chaiff dŵr o'r system ei ollwng o fewn 50 metr i wlyptir a fwydir gan ddŵr daear	Mae gwlyptir a fwydir gan ddŵr daear yn ecosystem ddaearol sy'n dibynnu'n uniongyrchol ar grynafa ddŵr daear, ac mae'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Safle Ewropeaidd / Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)</li> <li>• Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)</li> </ul>
7	Ni chaiff dŵr o'r system ei ollwng o fewn 50 metr i fan ble y codir dŵr daear	Mae'n bwysig ichi ddysgu os oes unrhyw dyniadau dŵr preifat neu drwyddedig o fewn 50 metr i'r man(nau) gollwng dŵr. Nid yw hyn yn cynnwys y twll turio codi dŵr a ddefnyddir fel rhan o'r system GSHC. Rydym yn cadw manylion unrhyw dyniadau dŵr trwyddedig. Holwch eich cymdogion a'r awdurdod lleol am fanylion unrhyw dyniadau dŵr

		preifat sydd gerllaw.
8	Ni chaiff dŵr o'r system ei ollwng mewn parth gwarchod tarddiad dŵr daear 1 (SPZ1)	Mae SPZ1 yn ardal ble caiff dŵr daear a godir ei warchod. Mae gan y parthau hyn radiws diofyn o 50 metr, ond ble maent wedi eu modelu ar amserau teithio dŵr daear mae'n bosibl y bydd y parth yn llawer mwy. Rydym yn cadw manylion y rhain.
9	Caiff y dŵr ei godi o a'i ollwng yn ôl i'r un ddyfrhaen	Os ychwanegir unrhyw beth at y dŵr yn y system, er enghraifft unrhyw ychwanegion y gellid eu defnyddio ar gyfer tynnu cen, yna ni fydd y gweithgaredd yn parhau i gael ei eithrio.